Datganiad i'r wasg

Dan embargo tan 18 Hydref

SHINE CYMRU YN LLWYDDIANNUS O RAN SICRHAU CYLLID LOTERI CYMRU A FYDD YN RHOI CYMORTH HANFODOL I GYMUNEDAU LLEOL DROS GYFNOD O 4 BLYNEDD.

Mae Shine Cymru – elusen sy'n rhoi cymorth arbenigol cyn-geni a thu hwnt i unrhyw un sy'n byw gyda spina bifida a hydroceffalws - wedi gwneud cynnig llwyddiannus ac wedi sicrhau £350,000 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am gyfnod o bedair blynedd.

Mae aelodau o Shine, sef pobl sy'n byw gydag un neu ddau o'r cyflyrau hyn, a'u teuluoedd wedi gweithio'n agos gyda thîm Shine Cymru i ddatblygu prosiect 'Ages and Stages' sy'n llywio'r ffordd y bydd gwasanaethau Shine Cymru yn sicrhau cymorth ar gyfer 1300 o fabanod, plant, plant yn eu harddegau ac oedolion gyda'r cyflyrau dros y pedair blynedd nesaf.

Mae hyn yn golygu:

- Gall teuluoedd sy'n byw mewn unrhyw sir yng Nghymru gael gafael ar wybodaeth a chymorth er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plentyn.
- Bydd gan unrhyw blentyn yn ei arddegau yng Nghymru y cyfle i gysylltu ag eraill a datblygu ei annibyniaeth.
- Gall unrhyw oedolyn sy'n byw gyda spina bifida neu hydroceffalws yng Nghymru gael gafael ar gyfoeth o wybodaeth, cymorth a digwyddiadau a fydd yn ei helpu i gadw'n fwy iach a hapus am gyfnod hwy.
- Bydd pobl o bob oedran sydd â spina bifida a hydroceffalws ledled Cymru yn gallu cysylltu â'i gilydd drwy rwydwaith o gymorth gan gymheiriaid

Ar ben hynny, bydd y grant newydd hwn yn galluogi tîm Shine Cymru i adeiladu ar ei waith presennol gyda gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol ledled Cymru, drwy roi hyfforddiant arbenigol a fydd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gefnogi pobl sydd â'r cyflyrau hyn.

Dywedodd Kate Steele, Prif Swyddog Gweithredol Shine, "Rwy'n hynod o ddiolchgar i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Cymru am roi'r cyllid parhad hwn i ni allu gwneud ein gwaith ledled Cymru.

Mae'r Gronfa Genedlaethol hon wedi ein cefnogi mewn sawl prosiect gwahanol ers sawl blwyddyn, felly yn ogystal â thynnu sylw at lwyddiant enfawr ein gwaith yng Nghymru hyd yma, mae'r cyllid ychwanegol hwn hefyd yn dangos yr hyder sydd gan

Gronfa Gymunedol Cymru yn yr hyn rydym yn ei wneud, a'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud.

Fel tîm, byddwn yn gallu parhau i weithio'n agos gyda'n haelodau a'u teuluoedd i ddarparu gwasanaethau wedi'u teilwra er mwyn eu cefnogi a'u harwain drwy'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gael gafael ar wasanaethau statudol, ac hefyd i sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phawb arall, i gyflawni'r hyn y maent am ei gyflawni”

Mae'r newyddion am y cyllid hwn hefyd yn cyd-fynd â dechrau Wythnos Ymwybyddiaeth Spina Bifida Shine, a lansiwyd gan un o gefnogwyr Shine Cymru - Mal Pope.

Mae Shine Cymru yn dibynnu'n llwyr ar arian o ddigwyddiadau codi arian i barhau i wneud y gwaith gwerthfawr a wneir yn y gymuned.

Cysylltwch â Clare Makin ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau,
clare.makin@shinecharity.org.uk